

Cofnodion o Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Cyngor Cymuned Llangeitho a gynhelir ar nos Lun
8 Mai 2017 yn Festri Capel Llwynpiod am 8 o'r gloch
Minutes of the Annual General Meeting held on Monday 8 May 2017 in Llwynpiod Chapel at 8pm

Yn dilyn Cyngor a dderbyniwyd gan Un Llais Cymru ynglŷn â chynnal Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol bedwar diwrnod clir wedi'r etholiad a chyn 23 Mai 2017, cytunwyd yn unfrydol i barhau a'r cyfarfod.

Following advice received from One Voice Wales about staging the AGM four clear days following an election and before 23 May 2017, it was unanimously agreed to continue with the meeting.

Cylchredwyd a chwblhawyd ffurflenni 'Datgan Derbyn Swydd' cyn i'r cyfarfod ddechrau.

The 'Declaration of Acceptance of Post' forms were circulated and duly signed before commencing the meeting.

Presennol/Present

Gerwyn Ebenezer (Cadair/Chair); Gwilym Evans, Myrddin James, Emyr Jones, Beryl Evans, Eirian Jones, John Evans, Rhian Turner & Cyng Rhodri Evans.

Ymddiheuriadau/Apologies – Cyng Paul Rooke & PCSO John Evans.

Croesawodd Cyng Gerwyn Ebenezer bawb i'r cyfarfod gan gynnwys aelod newydd sef Mr Emyr Jones a oedd yn cynrychioli Ward Penuwch ac estynnwyd llongyfarchiadau i Cyng Rhodri Evans ar gael ei ail-benodi fel cynghorydd Sir.

Yn dilyn ymddeoliad y cynghorwyr blaenorol cytunwyd i'r clercl anfon llythyron o ddiolch iddynt am eu gwasanaeth.

Cllr Gerwyn Ebenezer welcomed everyone to the meeting and in particular the newly-appointed Councillor Emyr Jones who represents the ward of Penuwch and congratulations were given to Cllr Rhodri Evans on his re-election as County Councillor.

Following the retirement of the previous Councillors, it was agreed to send them a letter of thanks for their service.

Ethol Cadeirydd/Election of Chairperson

Cynnigwyd Paul Rooke ar gynnig John Evans ac eiliwyd gan Gwilym Evans.

Paul Rooke was proposed as Chairperson by John Evans and this was seconded by Gwilym Evans

Ethol Is-Gadeirydd/Election of Vice Chairperson

Cynnigwyd Rhian Turner ar gynnig Beryl Evans ac eiliwyd gan John Evans.

Rhian Turner was proposed as Vice Chairperson by Beryl Evans and this was seconded by John Evans

Hysbysebu ar gyfer llenwi'r seddu gwag/Advertising vacant seats

Soniwyd fod yna sedd wag ym mhlwyf Penuwch a Gwynfil. Cytunwyd i'r clercl hysbysebu'r swyddi gan nodi'r dyddiad cau o 26 Mai 2017 er mwyn cael trafod a phenodi yn y cyfarfod nesaf o'r Cyngor.

It was noted that there were vacant councillor seats in Penuwch and Gwynfil parishes. It was agreed that the clerk should advertise the positions, with a closing date of 26 May 2017 so that the matter could be discussed, and appointments made, at the next meeting of the Council.

Ethol Archwiliwr Mewnol/Election of Internal Auditor

Cynnigwyd Mr Gareth Jones, Rhydyfawnog, Tregaron ar gynnig Rhian Turner ac eiliwyd gan Beryl Evans.

Mr Gareth Jones, Rhydyfawnog, Tregaron was proposed as Internal Auditor by Rhian Turner and this was seconded by Beryl Evans.

Datgan Diddordeb/Declaring an Interest – Neb/ No one

Cofnodion y cyfarfod diwethaf/Minutes of the last meeting

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf ar gynnig Beryl Evans ac eiliwyd gan Eirian Jones.

Beryl Evans proposed accepting the Minutes of the last meeting, and this was seconded by Eirian Jones.

Materion yn codi o'r cofnodion/Matters arising from the Minutes

- Cyng Gerwyn Ebenezer i ymweld â Mr Dai Stephens i drafod y gwaith angenrheidiol ar y parc a bodloni fod y glaswellt artificial yn cael eu doddi ar ben y rwyber du yn ôl yr angen. Angen pwysleisio i Mr Stephens bod angen gwneud y gwaith ar frys gan fod yna dipyn o amser wedi mynd heibio ers cael y grant a'r deunydd i gwblhau'r gwaith. Os na fyddai Mr Stephens yn medru cadarnhau cwplau'r gwaith yna byddai rhaid mynd allan i'r gymuned am gontractiwr arall i ddechrau ar y gwaith.
- *Cllr Gerwyn Ebenezer to visit Mr Dai Stephens to discuss the necessary work needed in the park and to agree that artificial turf needs to be placed over the black rubber. Need to request that the work is done urgently as quite some time has elapsed since receiving the grant and the materials to do the work. If Mr Stephens is unable to confirm that the work can be completed by a certain date, then another contractor needs to be found to do the work.*
- Derbyniwyd llythyr oddi wrth Mrs Dilwen Stephens ar ran pwyllgor y Neuadd Jiwibili, ynglŷn â'r peiriant diffib sydd wedi'u leoli ar wal allanol y Neuadd Jiwibili. Gofynnant i'r Cyngor Cymuned i fabwysiadu'r boc, fod yn gyfrifol am ei gynnal a chadw ynghyd â doddi golau ag arwyddion pwrpasol ar y boc. Soniwyd fod aelodau o'r cymorth cyntaf wedi cynnig sesiwn hyfforddiant yn rhad ac am ddim i'r gymuned ar sut i'w ddefnyddio a bod pwyllgor y Neuadd yn cytuno i roi'r neuadd am ddim i'r noson o hyfforddiant. Trafodwyd y boc diffib a phenderfynwyd nad oedd y Cyngor Cymuned

am fod yn gyfrifol am y peiriant a'r bocs ond yn cynnig prynu'r bocs addas fel cyfraniad tuag at y prosiect ond am weld pwyllgor y Neuadd yn ei symud i le mwy addas ac o bosibl gofyn i dîm cymorth cyntaf am y lle mwy addas i'w ail-leoli ac i fod yn gyfrifol amdano.

- *A letter has been received from Mrs Dilwen Stephens, on behalf of the committee of Jubilee Hall, about the defibrillator machine which is located on the outside wall of Jubilee Hall. It asks if the Community Council can adopt the defibrillator's box, be responsible for its maintenance, and place a light and appropriate signs on the box. It was mentioned that members of First Response had offered to give a free training session to the community about how to use the defibrillator and that the Hall committee and offered the hall free of charge for this session. The defibrillator box was discussed and the Community Council decided that it was reluctant to be responsible for the box and defibrillator, but offered instead to purchase a purposeful box as its contribution to the project, and suggested that perhaps the Hall committee move it to a more appropriate position, having asked the First Response team for its advice about a better location; and suggested that the First Response team have overall responsibility for it.*

Cyfrifon Blynyddol/Annual Accounts

Cylchredwyd a thrafodwyd y fantolen flynyddol a derbyniwyd yn gywir ar gynnig Cyng John Evans ac eiliwyd gan Cyng Gwilym Evans. Arwyddwyd y ffurflenni priodol gan y Cadeirydd.

The annual accounts were circulated and discussed and accepted as being accurate on the proposal of Cllr John Evans and this was seconded by Cllr Gwilym Evans. The appropriate forms were signed by the Chairperson.

Cyflog a Chostau'r Clerc/Salary and Costs of Clerk

Cytunwyd i roi 5% o godiad cyflog i'r clerf sef, £55.12 i fyny at £1,157.56, ad-dalu costau'r clerf yn £67.18, ar gynnig Cyng Eirian Jones ac eiliwyd gan Cyng Beryl Evans.

It was agreed that a 5% increase in salary be awarded to the clerk, that is, £55.12, to make it £1,157.56, and to reimburse the clerk £67.18 for costs. This was proposed by Cllr Eirian Jones and seconded by Cllr Beryl Evans.

Gohebiaeth/Correspondence

Dim i'w gofnodi.

Nothing to record.

Cyfrifon/Accounts

- Balans yn y banc £8,648.33
- *Balance in the bank £8,648.33*
- Taliad 1af o'r Praesept 2017–18 wedi'u dderbyn £3,666.67
- *First payment of the Precept 2017–18 has been received £3,666.67*

Cymorth Ariannol/Financial Assistance

Clerc i hysbysebu a gwahodd ceisiadau am gymorth ariannol i mewn erbyn y cyfarfod nesaf.

Clerk to place notifications inviting applications for financial assistance by the next meeting.

Cyngor Sir Ceredigion/Ceredigion County Council

Dim i'w gofnodi.

Nothing to record.

Un Llais Cymru/One Voice Wales

Cynigion i'w drafod yn Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru i law erbyn 20fed o Fehefin 2017. Yr eitem yma i'w ddodi ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Any proposals to be discussed at the Annual General Meeting of Once Voice Wales be handed in by 20 June 2017. This item to be placed on the agenda of the next meeting.

Unrhyw Fater Arall/Any Other Matter

- Gratin wrth ymyl Tŷ Rhosyn, Llangeitho wedi codi ac angen sylw brys.
- *Raised grate near Tŷ Rhosyn, Llangeitho needs urgent attention.*
- Drain wedi blocio ar y ffordd lawr o Cilcert a Henbant am Langeitho.
- *Blocked drain on the road from Cilcert and Henbant towards Llangeitho.*
- Angen monitro absenoldebau'r cynghorwyr yn fwy manwl.
- *Need to monitor the absences of Councillors more.*
- Soniwyd fod y ffordd tu allan i Cnwc y Barcud, Llangeitho yn dechrau edrych yn ddyran unwaith eto. Cyng Rhodri Evans i wneud ymchwil i bryd mae'r ffordd lawr o Stags Head i Langeitho yn mynd i gael sylw drwy darmacio'r ffordd i gyd.
- *It was noted that the road outside Cnwc y Barcud, Llangeitho has begun to look unkempt once more. Cllr Rhodri Evans to make inquiries as to when the whole road from Stag's Head to Llangeitho will be tarmaced..*
- Angen y sweeper lawr ffordd Penbontbregarreg, Llwynpïod
- *Need the sweeper to go down the road past Penbontbregarreg, Llwynpïod*

- Diolchodd Cyng Rhodri Evans i bawb am ei cefnogaeth dros y bum mlynedd diwethaf a dros gyfnod yr etholiad.
- *Cllr Rhodri Evans thanked everyone for support over the past five years and the period of the election.*

Dyddiad a Lleoliad y cyfarfod nesaf/ Date and Location of next meeting

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ffestri Capel Penuwch ar nos Lun 5 Mehefin 2017 am 8 o'r gloch.

The next meeting will be held at Penuwch Chapel Vestry on Monday, 5 June 2017, at 8p.m.